**Vaughan Gething AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1116
Ein cyf/Our ref VG/09986/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

28 Ionawr 2021

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 16 Rhagfyr ynglŷn â Deiseb P-05-1116 Rhowch flaenoriaeth i bobl ag anabledd dysgu gael eu brechu yn erbyn COVID-19.

Yn unol ag argymhellion y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu, mae rhaglen frechu Cymru, fel gwledydd eraill y DU, yn blaenoriaethu pobl sydd yn y perygl mwyaf o ddal y coronafeirws, a datblygu salwch difrifol o ganlyniad i hynny. Mae'r Cyd-bwyllgor wedi argymell bod y brechlyn yn cael ei gynnig yn gyntaf i breswylwyr cartrefi gofal a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, ochr yn ochr â phobl 80 oed ac yn hŷn. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch sut y daeth y Cyd-bwyllgor i'w gasgliadau, ynghyd â manylion y grwpiau sydd mewn perygl (gan gynnwys y rheini sydd wedi bod yn gwarchod eu hunain a/neu sydd â chyflyrau iechyd isorweddol) ar gael yn:
https://www.gov.uk/government/publications/priority-groups-for-coronavirus-covid-19-vaccination-advice-from-the-jcvi-2-december-2020

O weithredu fel hyn, byddwn yn helpu i sicrhau bod y rheini sydd yn y perygl mwyaf yn cael eu diogelu cyn gynted â phosibl. At ei gilydd, amcangyfrifir bod y grwpiau o flaenoriaeth, a argymhellir gan y Cyd-bwyllgor, yn cynrychioli 99% o'r rheini y gellid atal marwolaethau o COVID-19 yn eu plith, gan mai nhw sydd yn y perygl mwyaf o ran marw ohono.

Mae'r Cyd-bwyllgor wedi argymell bod unigolion 16-64 oed, sydd â chyflyrau iechyd isorweddol sy'n golygu bod risg uwch y gallent ddioddef salwch difrifol neu farw, yn cael eu cynnwys yn cohort 6 ar y rhestr flaenoriaethu. Mae hynny'n cynnwys y rhieni sy'n dioddef anabledd dysgu difrifol a dwys.

Nawr bod y seiliau wedi cael eu gosod, mae'r byrddau iechyd yn cynyddu capasiti, ac maent wedi ehangu eu darpariaeth ers i'r rhaglen brechu yn erbyn COVID-19 ddechrau ym mis Rhagfyr. Mae'r graddfeydd brechu dyddiol yn cynyddu ar draws Cymru, ac mae'r holl fyrddau iechyd yn barod ar gyfer ehangu eu capasiti'n sylweddol ym mis Ionawr, pan fydd brechlyn AstraZeneca ar gael.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gan fod brechlyn AstraZeneca bellach wedi cael cymeradwyaeth reoleiddiol ar gyfer ei ddefnyddio yn y DU, bydd yn bosibl defnyddio modelau cyflenwi hyblyg a symudol a bydd y byrddau iechyd yn gallu darparu mwy o glinigau mewn lleoliadau gofal sylfaenol, megis meddygfeydd a fferyllfeydd, er enghraifft. Mae gwaith enfawr yn mynd rhagddo ledled Cymru er mwyn brechu pobl mor gyflym â phosibl. Gan ddibynnu ar gyflenwadau, ein nod yw brechu pawb yn cohortau 1-9 erbyn y gwanwyn.

Bydd llythyron yn cynnig apwyntiad, gan gynnwys manylion y lleoliad lle y bydd yr unigolyn yn cael y brechiad, yn cael eu hanfon gan ddibynnu ar safle'r unigolyn yn yr amserlen a'r perygl y mae ynddo. Ni fydd angen gwneud cais am y brechlyn, ac ni fydd angen gofyn i feddygon teulu na fferyllwyr ddarparu brechiad, gan y bydd pobl yn derbyn gwahoddiad yn awtomatig.

Mae rhagor o wybodaeth am y rhaglen frechu ar gael drwy glicio ar y dolenni isod:

- Datganiad ysgrifenedig diweddar Llywodraeth Cymru ynghylch darparu'r brechlyn yng Nghymru;
  https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-strategaeth-frechu-covid-19

- Cwestiynau cyffredin ynglŷn â brechlynnau COVID-19:
  https://icc.gig.cymru/pynciau/imiwneiddio-a-brechlynnau/gwybodaeth-brechlyn-covid-19/ynglyn-ar-brechlyn/

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth hon o gymorth.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services